YSGOL Gyfun Aberaeron
Comprehensive School

# Some Guidance for Parents and Carers Regarding...

# Cyngor ac Arweiniad i Rieni a Gofalwyr Ynglŷn â...




# Facebook

# Some guidance for Parents and Carers regarding Facebook

Facebook cannot be accessed by any student through school systems. The following is some guidance, taken from family lives website.



**'Reporting Abuse/ having material removed from Facebook**

Someone may post something abusive or hurtful on your profile or about you on Facebook in a group or fan page. It's important to know that this may be a crime called harassment, if there are several postings you should tell your parents or carer immediately so they can help you get it removed.

If the incident is serious you may want to speak to the police with your parents or carer so they can help you get it resolved and more importantly stop it from happening in the future.




If you want to tell Facebook about abusive or nasty posts look for a REPORT option on each update, if it's a picture look for a REPORT option just under the photograph. Sadly, it can take Facebook a while to remove material that is offensive. Keep reporting it and if you are not satisfied with the response consider involving the police.




You should report offensive material or pictures involving children or young people to The Child Exploitation and Online Protection Unit of the police. CEOP was set up specifically to deal with child protection issues online. Please note CEOP is not able to get involved in cyber bullying incidents, only the concerns of the safety of young people online.'

**Things to consider with Facebook:**

- Blocking people: once you block someone, that person can no longer see things you post on your timeline, tag you, invite you to events or groups, start conversation with you, or add you as a friend. NOTE: this does not include apps, games or groups you both participate in.
- Controlling what appears on your timeline or what you are tagged in: Facebook has settings that allow you to control what people post to your wall and what people tag you in. Depending on the level of security you select, this can require you to accept and review any posts to your wall or any posts that you are tagged in before they appear on your timeline.
- All of the above can be located under you privacy shortcuts button.







**IF YOU DON'T LIKE IT REPORT IT! IF IT CONTINUES BLOCK THEM!**

**http://www.familylives.org.uk**

# <u>Cyngor ac arweiniad i rieni ynglŷn â Facebook…</u>

Nid oes gan ddisgyblion fynediad i Facebook trwy sysyemau'r ysgol. Dyma ychydig o arweiniad i chi o'r wefan ' Family Lives'.



## <u>Gwneud cwyn / tynnu deunydd oddi ar Facebook</u>

Efallai y bydd rhywun yn ysgrifennu rhywbeth cas neu niweidiol ar eich tudalen neu ar dudalen grŵp ar Facebook. Mae'n bwysig i chi wybod os oes amryw o sylwadau yn cael eu hysgrifennu, gall hyn fod yn drosedd a elwir yn 'aflonyddwch' a dylech ddweud wrth eich rhieni neu ofalwr yn syth fel y gallent eich helpu i gael gwared o'r sylw.




Os yw'r digwyddiad yn un difrifol, efallai dylech siarad â'r heddlu gyda'ch rhieni neu ofalwr er mwyn datrys y broblem ac yn bwysicach fyth, rhwystro'r math yma o beth rhag digwydd eto.

Os ydych eisiau dweud wrth Facebook am unrhyw sylwadau cas neu niweidiol, edrychwch am yr opsiwn 'REPORT'. Bydd yr opsiwn yma ar gael o dan unrhyw luniau. Yn anffodus, gall Facebook gymryd amser i ddileu sylwadau, felly daliwch ati i bwyso'r opsiwn 'REPORT', ac os nad yw hyn yn gweithio dylech droi at yr heddlu.




Dylech roi gwybod i'r CEOP (Uned 'Child Exploitation and Online Protection' yr heddlu) am unrhyw ddeunydd neu luniau niweidiol sy'n ymwneud â phlant neu bobl ifanc. Mae'r uned yma wedi cael ei sefydlu er mwyn delio yn benodol gydag unrhyw faterion amddiffyn plant ar y we. Cofiwch mai sicrhau diogelwch bobl ifanc ar-lein y mae'r CEOP ac nid ymdrin â materion seibr fwlio.

## <u>Pethau i'w hystyried wrth ddefnyddio Facebook:</u>

- Blocio pobl: unwaith y byddwch wedi blocio rhywun, ni fydd y person yma'n gallu gweld eich tudalen, eich tagio, eich gwahodd i ddigwyddiadau na grwpiau, dechrau sgyrsiau â chi nac eich ychwanegu fel ffrind. SYLWCH—Nid yw hyn yn cynnwys appiau, gemau na grwpiau rydych chi a'r person yma'n cymryd rhan ynddynt.




- Rheoli'r hyn sy'n ymddangos ar eich tudalen neu'r hyn y cewch eich tagio ynddo: Mae gan Facebook osodiadau sy'n eich galluogi i reoli'r hyn y cewch eich tagio ynddo. Yn dibynnu ar yr amodau diogelwch rydych chi'n eu dewis, gall hyn eich caniatáu i wirio unrhyw ddeunydd cyn iddo ymddangos ar eich tudalen.
- Gallwch ddod o hyd i'r gosodiadau uchod wrth bwyso ar y botwm 'privacy shortcuts'.




**OS NAD YDYCH CHI'N HOFFI E, RHOWCH WYBOD! OS YDY E'N PARHAU, BLOCIWCH NHW!**

**http://www.familylives.org.uk/**

YSGOL Gyfun Aberaeron
Comprehensive School